**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1106
Ein cyf/Our ref JMSS/00035/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ebrill 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2023, ynghylch **Deiseb P-05-1106 – '*Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru*'**, lle y gofynnoch am ddiweddariad pellach ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Yn fy ngohebiaeth flaenorol, dyddiedig 6 Gorffennaf 2022, cyfeiriais at yr ymrwymiad penodol 'Gwella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus (CHC) a thaliadau uniongyrchol' sydd wedi'i gynnwys yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, cyhoeddwyd cynllun diwygiedig '*Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru*' yn 2021 (yn weithredol o Ebrill 2022 ymlaen) sy'n nodi'r polisi ar gyfer cymhwysedd i CHC a chyfrifoldebau sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol.

Mae'r fframwaith yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau a mesurau i sicrhau llais a rheolaeth i unigolion, gan gynnwys:

- byrddau iechyd yn contractio ag Ymddiriedolaeth Defnyddwyr Annibynnol, sydd wedi'i sefydlu o bosibl gan aelod o deulu'r unigolyn sy'n cael gofal, er mwyn rheoli gofal yr unigolyn hwnnw gan ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol penodol ar gyfer yr unigolyn

- byrddau iechyd yn cyflogi personél (naill ai yn uniongyrchol neu drwy asiantaeth) a oedd wedi'u cyflogi'n flaenorol gan yr unigolyn drwy daliadau uniongyrchol

Mae'r opsiynau a nodir yma yn fesurau interim posibl a ganiateir o dan y strwythur deddfwriaethol presennol. Byddai'r mecanweithiau hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gefnogi llais a rheolaeth. Fodd bynnag, byddai llawer o unigolion yn ystyried y trefniadau hyn yn israddol i daliadau uniongyrchol neu Gyllidebau Iechyd Personol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi gweld galwad cynyddol i gyflwyno math o daliadau uniongyrchol ar ffurf Cyllidebau Iechyd Personol ar gyfer unigolion yng Nghymru sy'n gymwys i gael CHC. Byddai hyn yn debyg i'r system bresennol yn Lloegr sydd wedi bod yn weithredol ers 2014. Mae llawer yn credu y byddai hyn yn caniatáu i bobl anabl gael llais a rheolaeth dros eu gofal gan gadw eu hannibyniaeth pan yn gymwys i gael CHC.


Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022, ar rai newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys y cynnig i gyflwyno mynediad at daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Cafwyd ymateb cryf i'r mater hwn. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dadansoddi gan swyddogion ar hyn o bryd ac unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion.

Sefydlwyd Gweithgor CHC/taliadau uniongyrchol sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys pobl anabl, Sefydliadau Pobl Anabl, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wedi bod yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r cyflawniadau dros dro a thymor hwy yn Fframwaith Cenedlaethol CHC i gefnogi'r gwaith o roi llais a rheolaeth well i'r unigolion.

Yn ogystal, sefydlwyd grŵp drafftio i gyd-gynhyrchu Canllawiau gydag ystod o randdeiliaid ar y mecanweithiau dros dro megis Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n gyflym a bydd yn parhau dros y misoedd nesaf.

Pan fydd y gwaith hwn wedi'i ddatblygu ymhellach, byddem yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y cynnydd a wnaed.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services